

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Papur Pwnc Twf a Dosbarthiad Gofodol Rhan 1 - Tai



Chwefror 2023

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Dosbarthu a Chyflenwi Tai	3
Dyrannu Tai.....	3
Ymrwymadau	4
Unedau Adeiledig.....	4
Caniatâd cynllunio mewn grym	4
Dosbarthiad Gofodol Dyraniadau Tai ac Ymrwymadau Tai	5
Darpariaeth ar gyfer hap-safleoedd.....	7
Safleoedd Mawr (+5).....	7
Data yr Adroddiad Monitro Blynyddol.....	8
Bancio Tir a Dosbarthiad Gofodol Hap-safleoedd Mawr	9
Y casgliad ynghylch hap-safleoedd mawr	11
Safleoedd Bach (Llai na 5 o anheddau).....	11
Y casgliad ynghylch hap-safleoedd bach.....	13
Aneddiadau Haen 4.....	14
Hyblygrwydd o ran Cyflenwad Tai	15
Crynodeb o'r Cyflenwad Tai cyffredinol fesul cydran	16
Y Targed o ran Tai Fforddiadwy o fewn y CDLI Diwygiedig.....	17
Atodiad 1 – Safleoedd bach wedi eu cwblhau fesul haen	
Atodiad 2 - Aneddiadau yn Haen 4 a nifer y tai	
Atodiad 3 - Safleoedd heb eu cymryd ymlaen yn yr 2il CDLI Adneuo	

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y Papur Pwnc hwn ar y cyd â'r Papur Rôl a Swyddogaeth a rhoddir ystyriaeth i'r opsiwn twf aelwydydd a ffefrir ar gyfer y CDLI Diwygiedig a nodir hynny yn y Papur Pwnc Poblogaeth ac Aelwydydd. Mae'r papur hwn yn cynnwys y dystiolaeth ganlynol:

Rhan 1 Tai

1.2 Cyflenwad Tai a Dosbarthu Gofodol ac mae'n ceisio:

- Ystyried cydrannau'r cyflenwad tai sy'n creu'r ffigur cyflenwad tai o fewn yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig gan gynnwys y canlynol;
 - Ffigur Dyrannu Tai
 - Unedau Adeiledig ac Ymrwymadau Tai
 - Hap-safleoedd mawr (5+ o anheddau)
 - Hap-safleoedd bach (<5 o anheddau)
- Cyfiawnhau'r cyflenwad tai o aneddiadau yn Haen 4
- Rhoi cyfiawnhad dros yr hyblygrwydd a ddefnyddir o fewn yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig.
- Cefnogi'r taflwybr tai a nodir yn Atodiad 7 o'r 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig.
- Nodi'r targed o ran nifer y Tai Fforddiadwy a nodir ym Mholisi SP5 o'r 2il CDLI Diwygiedig.

Rhan 2 Creu Swyddi a'r Economi

Mae'r dystiolaeth ar Greu Swyddi a'r Economi fel rhan o'r Papur Pwnc Twf a Dosbarthu Gofodol i'w gweld mewn papur pwnc ar wahân fel yr amlygwyd yn y sylfaen dystiolaeth.

2. Dosbarthu a Chyflenwi Tai

2.1 Yn y papur hon byddwn yn ceisio defnyddio'r holl dystiolaeth addas sydd ar gael yn sail ar gyfer lleoli a dosrannu tai o fewn aneddiadau drwy'r holl glwstwr, ac yn yr haenau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Byddwn hefyd yn ystyried cydrannau'r cyflenwad tai a'r modd y maent yn cydweddu â'r gofyniad cyffredinol ar gyfer tai.

2.2 Yn y lle cyntaf, cyfeirir at y Papur Pwnc Amcanestyniad Poblogaeth ac Aelwydydd, sy'n amlygu'r hyn a ffefrir gan y Cyngor o ran gofyniad tai. 8,822 o anheddau yw'r ffigur gofyniad tai, gyda chyflenwad tai o 9,704 o anheddau er mwyn cyrraedd y targed.

2.3 Wrth fodloni'r gofyniad tai a nodir yn yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig, ystyrir pedair cydran wahanol o fewn y cyflenwad tai. Gwneir hyn i adlewyrchu'r cyngor a roddwyd yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu (Rhifyn 3).

2.4 Mae'r cydrannau o'r cyflenwad tai wedi'u nodi isod sy'n dangos y dadansoddiad o'r unedau tai o fewn yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig.

Dyrannu Tai

2.5 Mae safleoedd a ddyrannwyd i'w datblygu i ddibenion preswyl yn y CDLI Diwygiedig yn ffynhonnell allweddol er mwyn bodloni'r gofyniad tir a nodwyd ar gyfer tai. Diffinnir Dyraniadau Tai fel safleoedd mawr o fewn y Cynllun a safleoedd y mae ganddynt le ar gyfer mwy na 5 neu fwy o anheddau. Nodir y safleoedd dyranedig hyn drwy bolisi tai (Polisi HOM1), yn rhan o ddyraniad defnydd cymysg (SG1), neu'n rhan o Safle Strategol (Polisi SP6).

2.6 Yr opsiwn gofodol a'r dosbarthiad a ffefrir yw cyfeirio dyraniadau tai tuag at yr aneddiadau hynny y mae ganddynt y rhinweddau priodol o ran cynaliadwyedd a'r ystod o wasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen i gynnwys twf.

2.7 Wrth bennu'r nifer dangosol o anheddau ar gyfer dyraniadau tai, mae dwyseddau datblygu wedi cyfrannu at y gwaith cyfrifo. Fe'u cymhwysir fesul safle unigol, gan ystyried a yw'r safle yn drefol neu'n wledig yn bennaf. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i raddfa'r datblygiad arfaethedig a'r math o ddatblygwr a fydd yn datblygu'r safle fwy na thebyg. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu trafod ar y ffurflenni asesu safle ar gyfer pob safle a ddyrennir.

2.8 Mae tabl cyntaf y Taflwybr Tai yn Atodiad 7 o'r 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig yn dangos y dadansoddiad o safleoedd sy'n ddyraniadau nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio. Mae'r data hwn wedi'i ddiweddarau i'r 1^{af} o Hydref 2022

2.9 At ddibenion yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig, y ffigur presennol ar gyfer y dyraniadau tai heb ganiatâd cynllunio yw 2,482 o anheddau. Mae hyn yn ostyngiad mawr yn y ffigur ers y Fersiwn Adneuo Cyntaf o'r CDLI Diwygiedig yn 2020 (4,154 o anheddau) gan fod bellach tair blynedd arall ers cychwyn cyfnod y CDLI Diwygiedig sydd wedi golygu ein bod wedi gweld nifer o ddyraniadau presennol y CDLI yn cael caniatâd cynllunio ac felly'n trosglwyddo i'r CDLI Diwygiedig.

Ymrwymadau

2.10 Ymrwymadau yw'r safleoedd hynny yr adeiladwyd arnynt neu'r rhai y mae ganddynt ganiatâd cynllunio mewn grym.

Unedau Adeiledig

2.11 Y dyddiad sylfaen ar gyfer y Cynllun yw 1 Ebrill 2018, ac mae'r holl anheddau hynny a adeiladwyd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu cynnwys yn y gydran hon o'r cyflenwad tai. Mae data ar gael ynghylch tai a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth ac ar adeg cyhoeddi'r 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig, mae'r Taflwybr Tai yn nodi pedair blynedd o ddata ar dai a gwblhawyd, gyda 1,648 o anheddau wedi'u cwblhau ar safleoedd mawr, a 449 o unedau wedi'u cwblhau ar safleoedd bach. Wrth i'r CDLI Diwygiedig symud tuag at y cyfnod archwilio a mabwysiadu, bydd y ffigurau yn y gydran hon yn cael eu diwygio'n barhaus yn unol â'r taflwybr tai.

Caniatâd cynllunio mewn grym

2.12 Ar gyfer safleoedd â chaniatâd cynllunio, rhoddir ystyriaeth i ba mor debygol y caiff y safleoedd hyn eu cyflwyno i'w datblygu. Nodir safleoedd sy'n cael eu nodi fel ymrwymadau safleoedd tai Polisi HOM1 yn yr ail dabl yn y Taflwybr Tai. Ystyrir bod y safleoedd hyn yn sicr o gael eu cyflawni. O 1 Hydref 2022, y ffigur ymrwymadau ar hyn o bryd yw 4,342. Mae hyn 1,510 o anheddau'n fwy na'r hyn a nodwyd yn y Fersiwn Adneuo Cyntaf o'r CDLI Diwygiedig, ac unwaith eto mae'n adlewyrchiad o'r safleoedd sy'n cael eu cyflwyno ym mlynnyddoedd cynnar y cynllun.

2.13 Wrth i'r CDLI Diwygiedig symud tuag at gael ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn diweddarau'r taflwybr tai gan ddefnyddio data tai o 31 Mawrth gan gadw cofnod o'r safleoedd

hynny sydd wedi'u cynnwys/heb eu cynnwys yng ngholofn ymrwymadau y ffigur cyflenwad tai ym Mholisi HOM1.

Dosbarthiad Gofodol Dyraniadau Tai ac Ymrwymadau Tai

2.14 Mae'r taflwybr tai yn rhoi'r data diweddaraf inni ynghylch dosbarthiad gofodol dyraniadau ac ymrwymadau yn y CDLI diwygiedig.

Haen	Nifer yr anheddau yn yr haen	Canran y safleoedd HOM1 fesul Haen
Haen 1	3918	57.42%
Haen 2	2175	31.87%
Haen 3	731	10.71%
Cyfanswm	6824	100%

Tabl 1- Dosbarthu Dyraniadau Tai fesul Haen

Haen	Dyrannwyd	Ymrwymiad	Cyfanswm	Canran yr Ymrwymadau fesul Haen
Haen 1	1498	2420	3918	61.77%
Haen 2	602	1573	2175	72.32%
Haen 3	382	349	731	47.74%
Cyfanswm	2482	4342	6824	

Tabl 2 - Dosbarthu Dyraniadau Tai ac Ymrwymadau fesul Haen -

2.15 Mae Tabl 1 yn dangos bod nifer yr anheddau ym mhob Haen yn gyson â'r opsiwn gofodol a ffeirir gan y CDLI a Chymru'r Dyfodol, ac mae dull clir o'r brig i'r bôn o ran mwy o dai yn nhrefi mwy o faint y sir, gan hidlo i lawr i 10.71% o rifau dyraniadau'r CDLI diwygiedig o fewn y pentrefi llai yn Haen 3.

2.16 Fel yr amlygwyd uchod yn nhabl 2, mae haenau 1 a 2 wedi dangos nifer uchel o safleoedd a ddyrannwyd yn cael caniatâd cynllunio, sydd wedi dangos bod hyder yn y sector adeiladu tai yn yr ardaloedd hyn.

Clwstwr	Nifer yr anheddau o fewn y clwstwr	Canran y safleoedd HOM1 fesul clwstwr
Clwstwr 1	1690	24.77%
Clwstwr 2	2840	41.62%
Clwstwr 3	1267	18.57%
Clwstwr 4	218	3.19%
Clwstwr 5	162	2.37%
Clwstwr 6	647	9.48%
Cyfanswm	6824	100%

Tabl 3 - Dosbarthu Dyraniadau Tai fesul Clwstwr

Clwstwr	Dyrannwyd	Ymrwymadau	Cyfanswm	Canran yr Ymrwymadau fesul clwstwr
Clwstwr 1	846	844	1690	49.94%
Clwstwr 2	644	2196	2840	77.32%
Clwstwr 3	441	826	1267	65.19%
Clwstwr 4	172	46	218	21.1%
Clwstwr 5	67	95	162	58.64%
Clwstwr 6	312	335	647	51.78%
Cyfanswm	2482	4342	6824	63.63%

Tabl 4 - Dosbarthu Dyraniadau Tai fesul Clwstwr - Ymrwymadau

2.17 Unwaith eto, yn unol ag Opsiwn Gofodol y CDLI Diwygiedig a Chymru'r Dyfodol, mae'n dangos bod nifer fwy o anheddau yng Nghlwstwr 1, 2 a 3 (yn bennaf yr Ardaloedd Twf a threfi mwy o faint). Yn ogystal, mae lefel yr ymrwymadau tai, yn enwedig yng Nghlwstwr 2 a 3 yn rhoi pwyslais ar y sefyllfa gref o ran cefnogi'r CDLI Diwygiedig i fodloni ei ofynion tai (Tabl 4)

Darpariaeth ar gyfer hap-safleoedd

2.18 Gellir disgrifio'r ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd mewn dwy ffordd. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyfraniadau safleoedd sydd â 5 neu fwy o anheddau (hap-safleoedd mawr) a safleoedd sydd â 4 neu lai o anheddau (hap-safleoedd bach).

Safleoedd Mawr (+5)

2.19 Mae'r Cynllun yn ceisio creu sicrwydd drwy ddyrannu safleoedd y mae ganddynt ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd yr holl safleoedd hyn yn cael eu cyflwyno i'w datblygu, er enghraifft os credir eu bod yn gynlluniau tybiannol.

2.20 Mewn amgylchiadau lle na chaiff safleoedd eu dyrannu, gwneir darpariaeth er mwyn ystyried eu cyflwyno'n unol â pholisïau eraill y CDLI. Mae'r safleoedd hynny wedi gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu tai yn Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol.

2.21 Gellir defnyddio tueddiadau o'r gorffennol wrth wneud darpariaeth ar gyfer hap-safleoedd yn y ffigur cyflenwad Tai. Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth am nifer y tai a gwblhawyd ar hap-safleoedd ers 2008, a chanrannau'r niferoedd hynny yng nghyd-destun yr holl gyfraddau cwblhau safleoedd mawr.

Blwyddyn	Cwblhau ar hap-safleoedd (aneddiadau)	Canran yr hap-safleoedd mawr mewn perthynas â'r safleoedd tai mawr a gwblhawyd yn gyffredinol
2022	54	14.8%
2021	101	25.35%
2020	85	14.0%
2019	37	11.8%
2018	96	19.1%
2017	121	22.1%
2016	154	23.0%
2015	55	11.4%
2014	106	21.9%
2013	43	11.9%
2012	40	12.7%
2011	106	15.8%
2010	59	16.4%
2009	84	24.2%
2008	173	21.1%
Cyfanswm	1314 o anheddau	
Cyfartaledd	87.6 annedd y flwyddyn	mae 21.63% o gyfanswm y tai a gwblhawyd ar hap-safleoedd.

2.22 Bydd defnyddio cyfnod o 15 mlynedd ar gyfer anheddau a gwblhawyd ar hap-safleoedd yn caniatáu cyfnod digon hir i ystyried unrhyw anghysondebau neu gyfnodau lle mae'r cyfraddau cwblhau'n anarferol o uchel neu isel. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl cydbwysu'r ffigurau dros gyfnod hwy. Mae tabl 5 uchod yn dangos tri chyfnod amser penodol sy'n dangos lefel uchel o dai a gwblhawyd ar hap-safleoedd. Mae hyn yn cynnwys 2008 sef y flwyddyn lawn gyntaf ar ôl mabwysiadu'r CDU, 2016 sef y flwyddyn lawn gyntaf ar ôl mabwysiadu'r CDLI, a 2021, sef y flwyddyn lawn gyntaf ar ôl ymgynghoriad y Fersiwn Adneuo Cyntaf o'r CDLI Diwygiedig. Mae hyn i'w ddisgwyl wrth i ddatblygwyr / tirlfeddianwyr geisio cael caniatâd cynllunio ar safleoedd yr oedd yn hysbys eu bod wedi'u dad-ddyrannu o gynllun datblygu. Yn yr un modd, 2012 / 2013 a 2019 oedd yr amseroedd pellaf i ffwrdd (o ran y Cynllun Datblygu) o fabwysiadu Cynllun Datblygu newydd ac mae nifer yr hap-safleoedd a gwblhawyd yn lleihau wrth i'r cynllun ddatblygu o fod yn un tymor byr i dymor hir o fewn cyfnod Cynllun, ac, wrth i ddatblygiad ddod yn fwy sicr.

2.23 Wrth ystyried nifer yr hap-safleoedd ar gyfer y CDLI Diwygiedig, gellir defnyddio'r ffigur cyfartalog ar gyfer cwblhau ar hap-safleoedd yn y ffigur cyflenwi tai dros 15 mlynedd y Cynllun. Er mwyn cyd-fynd â chydrrannau eraill o gyflenwad tai, ffigur y ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd yw 87 o anheddau y flwyddyn. Byddai hyn yn gyfwerth â darpariaeth o 1,305 o anheddau ar hap-safleoedd.

2.24 Mae'r Taflwybr Tai yn Atodiad 7 o'r 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig yn darparu data ar daflwybr yr hap-safleoedd yn y dyfodol fel cydran y cyflenwad tai. Dylid nodi bod safleoedd a gwblhawyd fel hap-safleoedd yn y CDLI mabwysiedig, wedi datblygu'n bennaf fel dyraniadau o fewn y CDLI Diwygiedig (a gwblhawyd ar ôl dyddiad sylfaen y CDLI Diwygiedig). Er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith, dim ond safleoedd sy'n dal i gael eu hystyried fel hap-safleoedd yn y CDLI Diwygiedig sy'n cael eu cyfrif yn hyn o beth. Mae 4 blynedd ers y dyddiad sylfaen ac mae 74 o anheddau wedi'u darparu y gellir eu hystyried yn hap-safleoedd a gwblhawyd.

Data yr Adroddiad Monitro Blynyddol

2.25 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) CDLI Sir Gaerfyrddin rhwng 2015 a 2022 yn dangos dadansoddiad o'r anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio ar hap-safleoedd, a chyfraddau'r tai a gwblhawyd.

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
Nifer yr anheddau a ganiatwyd ar hap-safleoedd bach	784	407	284	241	295	139	255
Cwblhau ar hap-safleoedd	154	121	96	37	85	101	54

Tabl 6 - Yr Hap-safleoedd a Gafodd Caniatâd a'r Rhai a Gwblhawyd (ffynhonnell: AMBau'r CDLI)

2.26 Nodir yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2016 y rhoddwyd caniatâd cynllunio i 784 o anheddau ar hap-safleoedd, a bod nifer yr anheddau ar hap-safleoedd wedi parhau i ostwng dros y blynyddoedd, gan gyrraedd cyn lleied â 37 o anheddau wedi'u cwblhau ar hap-safleoedd yn 2018/2019. Mae'r duedd hon yn glir ym mhob un o'r cyhoeddiadau AMB. Mae hyn yn awgrymu perthynas wan rhwng y rhai a gafodd caniatâd a'r rhai a gwblhawyd, a doedd nifer o safleoedd ddim wedi cael eu datblygu ar ôl i'r caniatâd cynllunio gael ei gymeradwyo. Mae'n bosibl bod y caniatâd hwn yn dybiannol ei natur heb ysgogiad go iawn, na'r gallu i ddatblygu.

Bancio Tir a Dosbarthiad Gofodol Hap-safleoedd Mawr

2.27 Efen allweddol o'r Llawlyfr Cynllun Datblygu yw deall dosbarthiad gofodol tai, ac mae ymarfer wedi'i wneud i nodi lleoliad datblygiadau arfaethedig o'r cyflenwad o hap-safleoedd mawr.

2.28 Mae Atodiad 3 yn dangos yr holl safleoedd nad ydynt yn cael eu dyrannu yn y CDLI Diwygiedig. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys dyraniadau tai y CDLI Mabwysiedig nad ydynt yn digwydd yn y CDLI Diwygiedig a hap-safleoedd eraill sydd wedi cael caniatâd cynllunio y gellid eu datblygu o dan delerau'r caniatâd hwnnw. Cyfanswm y banciau tir ar 1 Hydref 2022 oedd 3,616 o anheddau. Cynhaliwyd ymarfer pellach i nodi pa un o'r safleoedd hynny yn y banciau tir y byddai disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu datblygu. Gelwir hyn yn hap-safleoedd disgwylidig. Mae safleoedd nad ydynt yn cael eu hystyried i'w datblygu yn cael eu galw'n safleoedd nas rhagwelwyd.

Banciau Tir	Hap-safleoedd disgwylidig	Hap-safleoedd nas rhagwelwyd
3,616 o anheddau	875 o anheddau	2,741 o anheddau

Tabl 7 – Banciau Tir nas dyrannwyd

2.29 Mae tablau 8 a 9 yn nodi'r hap-safleoedd disgwylidig a'r rhai nas rhagwelwyd fesul Clwstwr a Haen. Mae'r data hwn yn dangos bod cyfran fawr o'r hap-safleoedd disgwylidig wedi'u lleoli yng Nghlystyrau 2 a 3. Yn yr un modd â'r dadansoddiad o ddyraniadau tai ac ymrwymadau, mae'r mwyafrif o safleoedd o fewn Haen 1, ac mae Haen 2 hefyd yn dangos cydberthynas gref o ran hap-safleoedd posibl.

2.30 Mae hyn yn nodedig o ystyried nifer y safleoedd CDLI mabwysiedig sy'n cael eu tynnu o'r CDLI Diwygiedig.

	Capasiti'r Safle	Nifer y safleoedd mawr disgwylidig	% yr anheddau ar hap-safleoedd disgwylidig fesul clwstwr		Nifer y Safleoedd Mawr nas Rhagwelwyd	% yr anheddau ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd fesul clwstwr
Clwstwr 1	650	198	22.63%		442	16.12%
Clwstwr 2	1243	271	30.97%		972	35.46%
Clwstwr 3	1029	281	32.11%		748	27.29%
Clwstwr 4	287	47	5.37%		240	8.76%
Clwstwr 5	284	10	1.14%		274	10%
Clwstwr 6	133	68	7.78%		65	2.37%
Cyfanswm	3616	875	100%		2741	100%

Tabl 8 - Banciau Tir nas dyrannwyd fesul Clwstwr

	Capasiti'r Safle	Nifer y safleoedd mawr disgwylidig	% yr anheddau ar hap-safleoedd disgwylidig fesul haen		Nifer y Safleoedd Mawr nas Rhagwelwyd	% yr anheddau ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd fesul haen
Haen 1	1623	365	41.71%		1258	45.73%
Haen 2	1472	285	32.58%		1187	43.15%
Haen 3	521	225	25.71%		296	11.12%
Haen 4	0	0	0%		0%	0%
Cyfanswm	3616	875	100%		2741	100%

Tabl 9 - Banciau Tir nas dyrannwyd fesul Haen

Y casgliad ynghylch hap-safleoedd mawr

2.31 Mae'r ffigur o 875 o anheddau ar safleoedd disgwylidig yn swm realistig y mae'r Cyngor yn ystyried y gallent gael eu datblygu ar hap-safleoedd yn ystod cyfnod y CDLI Diwygiedig. Wrth gwrs, gallai safleoedd o fewn y rhai nas rhagwelwyd gael eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun a gallai safleoedd eraill nad ydynt yn hysbys eto ychwanegu at y cyflenwad o hap-safleoedd.

2.32 Yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adran hon ystyrir nad oes tystiolaeth ddigonol a chymhellol yn y data ynghylch hap-safleoedd dros beidio â defnyddio'r ddarpariaeth gyfartalog ar gyfer hap-safleoedd dros y cyfnod o 15 mlynedd. Mae hyn yn cyfateb i 87 o anheddau y flwyddyn, neu 1,305 dros gyfnod y Cynllun.

Safleoedd Bach (Llai na 5 o anheddau)

2.33 O ystyried ei natur wledig a'i amrywiaeth o aneddiadau, mae darpariaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer safleoedd bach yn gwneud cyfraniad pwysig at gyfanswm y cyflenwad tai, ac yn cyflwyno elfen bwysig o ddewis a hyblygrwydd yn y farchnad dai. Mae cyfraniad y ddarpariaeth honno'n arbennig o bwysig mewn aneddiadau llai lle cyfyngir ar gyfleoedd am ddatblygiadau sy'n cynnwys 5 cartref neu fwy.

2.34 Mae cyfraddau cwblhau safleoedd bach wedi cael eu monitro ers AMB cyntaf ar gyfer y CDLI, sef 2015/2016, felly gellir darparu tystiolaeth er mwyn rhagamcanu cyfraniad safleoedd bach dros oes y cynllun.

2.35 Mae'r AMB yn nodi, mewn 7 mlynedd ers 2015-, bod 738 o anheddau wedi'u cwblhau ar gyfartaledd o 105 o anheddau y flwyddyn, fel y dangosir yn Nhabl 10..

Tai a Gwblhawyd ers dyddiad sylfaen y CDLI:							
JHLAS	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
Safleoedd Bach	92	92	105	117	103*	104*	125

Tabl 10 - Safleoedd bach a gwblhawyd

* Cwblhawyd cyfanswm o 207 o anheddau yng nghyfnod 2019-2021, felly mae'r ffigur hwn wedi'i rannu rhwng y ddau gyfnod monitro.

2.36 Mae Tabl 11 yn dangos ffigurau'r tai a gwblhawyd fesul Haen, ac mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad pellach fesul anheddiad ar safleoedd bach a gwblhawyd.

Haen	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022	Cyfanswm
1	33	29	35	40	80	46	263
2	21	17	26	29	59	33	185
3	21	34	30	38	46	28	197
4	15	10	14	9	20	15	83
Dim haen	2	2	0	1	2	3	10
Cyfanswm	92	92	105	117	207	125	738

Tabl 11 - Safleoedd bach a gwblhawyd fesul Haen

2.37 Gyda'i gilydd, mae haenau 1, 2 a 3 wedi darparu 645 o'r 748 o'r safleoedd bach a gwblhawyd (87.8%) dros y cyfnod diwethaf o 8 blynedd. Yn ôl y disgwyl, mae nifer y safleoedd bach yn uwch yn aneddiadau Haen 1, oherwydd y cyfle i adeiladu ar dir heb ei neilltuo yn yr aneddiadau hyn, ond mae nifer yr aneddiadau yn Haen 2 a 3 wedi darparu ychydig dros 50% o'r holl safleoedd bach a gwblhawyd. Mae Haen 4 yn darparu cydran fach o'r safleoedd bach a gwblhawyd ac mae ychydig o anheddau newydd wedi'u datblygu yn aneddiadau heb eu diffinio yn bennaf fel tai fforddiadwy. Hefyd mae Tabl 12 isod yn darparu gwybodaeth am y dadansoddiad gofodol o'r safleoedd bach a gwblhawyd fesul clwstwr.

	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022	Cyfanswm
Clwstwr 1	27	16	17	17	44	19	140
Clwstwr 2	11	19	27	26	31	30	144
Clwstwr 3	25	24	26	33	67	45	220
Clwstwr 4	7	13	8	14	11	10	63
Clwstwr 5	15	10	18	13	31	8	95
Clwstwr 6	7	10	9	14	23	13	76
Cyfanswm	92	92	105	117	207	125	738

Tabl 12 - Safleoedd bach a gwblhawyd fesul Haen

2.38 Mae Clwstwr 3 yn darparu'r nifer mwyaf o'r safleoedd bach a gwblhawyd, sydd i'w ddisgwyl o ystyried y pentrefi mawr sy'n cyfrannu at yr ardal dwf. Mae Clwstwr 4-6 yn darparu data cymharol, ac unwaith eto mae'r pentrefi bach yn darparu twf cynaliadwy ar gyfer eu hardaloedd.

Y casgliad ynghylch hap-safleoedd bach

2.39 Mae'r unig ffynhonnell dystiolaeth y gellir ei hatodi i'r lwfans safleoedd bach yn dod o'r 7 mlynedd o ddata yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae'n ymddangos bod y data ynghylch y safleoedd bach a gwblhawyd yn gyson yn flynyddol ac felly mae'n ddoeth bod y gyfradd gwblhau flynyddol ar gyfartaledd yn gallu cael ei hymestyn i gyfnod y cynllun cyfan. Byddai dilyn y duedd hon yn cefnogi'r gydran o gyflenwi safleoedd bach, sef 1,575 o anheddau ar gyfer cyfnod y cynllun.

Aneddiadau Haen 4

2.40 Datblygwyd y gwaith monitro o'r anheddau a gwblhawyd yn aneddiadau Haen 4 ar adeg pan gafodd terfynau datblygu eu pennu'n llym (yn y mwyafrif o achosion) o amgylch ymylon aneddiadau, yn enwedig mewn perthynas â chyfyngiadau amgylcheddol. Roedd cyfleoedd i ddatblygu ar raddfa fach yn brin. Mae cael gwared â therfynau datblygu yn Haen 4 a gweithredu Polisi HOM3 yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig yn creu cyfle i sicrhau cynnydd posibl o fewn yr aneddiadau hyn, cefnogi ymdrechion i gadw pobl leol, a galluogi cymunedau gwledig i dyfu mewn modd cynaliadwy.

2.41 Wrth ddosrannu ffigur tai i safleoedd bach yn Haen 4, mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer i nodi graddfa ei bentrefi gwledig. Yn Atodiad 2 dangosir yn fras faint o anheddau a geir ym mhob pentref, ac mae'r Cyngor o'r farn y byddai cynnydd o 10% i'r ffigurau hyn yn briodol i greu darpariaeth ar gyfer twf ar raddfa fechan. Er na cheir tystiolaeth ar gyfer y ganran hon o 10%, mae'n creu cyfle i bentrefi gwledig ddatblygu ar gyflymder sy'n gyson â'u cymeriad, eu hamgylchedd a'u swyddogaeth, a hefyd yn pennu terfyn clir ar gyfer yr hyn y gellid ei ystyried yn dwf derbyniol. Byddai hefyd yn darparu ar gyfer anghenion tai, yn enwedig ar sail y dystiolaeth a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Wledig, ac ar yr un pryd yn caniatáu i ddatblygiadau gymhathu ac i aneddiadau gynnwys unrhyw dwf heb amharu ar gymeriad yr ardal leol.

Clwstwr	Dosbarthiad yr anheddau newydd yn haen 4
Clwstwr 1	53
Clwstwr 2	24
Clwstwr 3	56
Clwstwr 4	31
Clwstwr 5	64
Clwstwr 6	36
Cyfanswm	264

Tabl 13 - Dosbarthiad yr anheddau yn Haen 4

2.42 Mae Tabl 13 yn dangos dosbarthiad gofodol posibl anheddau newydd fesul clwstwr yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'n dangos y pwyslais a roddir ar ddatblygiadau ar raddfa fechan yng nghlystyrau 4, 5 a 6 wrth ddarparu tai newydd i gymunedau gwledig. Bydd y 264 o anheddau yn cael eu cynnwys yn y lwfans safleoedd bach cyffredinol a nodir yn y cynllun.

Hyblygrwydd o ran Cyflenwad Tai

2.43 Yn unol â chynnwys y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (para 5.59), mae rhywfaint o hyblygrwydd yn cael ei ystyried yn elfen bwysig o'r ffigur cyflenwad tai. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru drwy Lawlyfr Cynlluniau Datblygu, dylid ystyried 10% fel man cychwyn ar gyfer hyblygrwydd, gan gyflwyno tystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw amrywio i'r ffigur hwnnw.

2.44 Mae'r Cyngor wedi pennu ffigur gofyniad tai uchelgeisiol, priodol a chyflawnadwy, gan ystyried y gallu i gyflawni nodau strategol y Cyngor, e.e. ei Gynllun Adfywio, y gallu i gadw pobl ifanc, nodweddion gwledig ardaloedd y Cyngor a'r cyfle i greu swyddi, ymhlith eraill. Yn yr achos hwn mae'r gallu i ddarparu hyblygrwydd yn bwysig.

2.45 Mae amseru cyhoeddi'r 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig yn darparu mesur allweddol i'r ganran o hyblygrwydd a roddir i'r CDLI Diwygiedig. Erbyn hyn mae gan y Cynllun bedair blynedd o ddata am dai a gwblhawyd y gellir ei fewnbynnu i'r taflwybr tai fel ffigur 'hysbys'. Yn yr un modd, mae'r ymrwymadau tai a nodwyd yn gynharach yn y Papur hefyd yn dangos gwerth pedair blynedd o ddata ac felly mae llawer mwy o hyder yn y cyflenwad tai na'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol yn y fersiwn Adneuo cyntaf ar ddechrau 2020. Rhoddodd y fersiwn Adneuo cyntaf hyblygrwydd o 15%, ond mae'r data presennol yn llawer mwy dibynadwy i ddefnyddio'r hyblygrwydd o 10% ar y gofyniad tai o 8,822 o gartrefi yn yr Ail fersiwn Adneuo. Mae gan 63.63% o'r holl safleoedd yn nhabl Polisi HOM1 ganiatâd cynllunio ac felly mae llawer mwy o sicrwydd wrth gyflwyno'r safleoedd hyn.

Crynodeb o'r Cyflenwad Tai cyffredinol fesul cydran

2.46 Wrth ystyried y ffactorau a'r rhesymeg dros y dystiolaeth uchod, dangosir cydrannau cyffredinol y cyflenwad tai yn Nhabl 14, a dangosir crynodeb o ddosbarthiad gofodol tai yn Nhabl 15. Nodir y ffigur dyraniad tai yn unol â gweddill yr holl gydrannau cyflenwi tai eraill.

Cydran	Nifer yr Unedau
Dyrannu Tai	Safleoedd HOM1: 2,482 o anheddau
	Safleoedd SG1: 1,132 o anheddau
	Safleoedd SG6: 240 o anheddau
Ymrwymadau*	Tai a Adeiladwyd ar safleoedd y CDLI 1,577 o anheddau
	Caniatâd Cynllunio ar safleoedd y CDLI Diwygiedig (gan gynnwys rhai a gwblhawyd): 4,342 o anheddau
Ddarpariaeth ar gyfer hap-safleoedd	Safle Bach: 1,575 o anheddau
	Safleoedd Mawr: 1,305 o anheddau
Cyfanswm y Ddarpariaeth	9,704 o anheddau
Gofyniad	8,822 o anheddau
Hyblygrwydd Cyffredinol	882 (10%)
Cyfanswm y Ddarpariaeth	9,704 o anheddau

*Tabl 14 - Cydrannau'r cyflenwad tai
Dyddiad sylfaen y Cynllun -1 Ebrill 2018
Dyddiad gorffen y Cynllun - 31 Mawrth 2033*

*Safleoedd a gwblhawyd ar 1 Ebrill 2022,
Ymrwymadau ar 1 Hydref 2022*

2.47 Mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu hefyd yn cyfeirio at y gofyniad i ddarparu dosbarthiad gofodol tai i gyd o fewn un tabl. Adlewyrchir y tabl hwn yn Atodiad 7 o'r 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig ac fe'i nodir isod yn Nhabl 15.

	Cydrannau'r Cyflenwad Tai	Haen 1	Haen 2	Haen 3	Haen 4	Dim Haen
A	Cyfanswm y safleoedd a gwblhawyd (bach a mawr)	1187	622	236	46	6
B	Unedau'n cael eu hadeiladu *	26	37	32	0	0
C	Unedau gyda chaniatâd cynllunio**	2420	1586	336	0	0
D	Dyraniadau tai newydd	1498	602	382	0	0
E	Hap-safleoedd mawr (+5)	514	402.4	317.6	0	0
F	Hap-safleoedd bach (-5)	469	367.2	289.8	0	0
G	Cyfanswm y Ddarpariaeth o ran Tai	6088	3579.6	1561.4	46	6

Tabl 15 – Dosbarthiad gofodol Tai (O Atodiad 7, yr 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig: Tafliwybr Tai)

* Safleoedd mawr yn unig o fis Ebrill 2022

** Safleoedd mawr yn unig o fis Hydref 2022

Y Targed o ran Tai Fforddiadwy o fewn y CDLI Diwygiedig

2.48 Mae tai fforddiadwy yn cynrychioli mater allweddol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig ac mae'n ffurfio cydran bwysig o'r CDLI, yn arbennig o ran cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cymunedau cynaliadwy a chytbwys.

2.49 Mae'r Cynllun yn ceisio darparu cynifer ag sy'n bosib o dai fforddiadwy o fewn cyfnod y cynllun drwy ddatblygu tai fforddiadwy ar safleoedd polisi HOM1 y CDLI, hap-safleoedd, casgliad o gyfraniadau swm cyfnewid a datblygu anheddau angen lleol posibl.

2.50 Mae'r Cyngor wedi llunio Adroddiad Hyfywedd Ariannol i nodi targed canrannol ar gyfer tai fforddiadwy ar ddatblygiadau tai newydd yn y sir. Yna defnyddir y ffigurau hyn i gyfrifo lefel y ddarpariaeth tai fforddiadwy y gellir ei chyflawni ar safleoedd.

Safleoedd Dyranedig

2.51 Mae Polisi HOM1 o'r Cynllun yn nodi faint o dai fforddiadwy y gellir eu cyflawni o bosibl ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae'r targedau ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar faint y safle, a'r trothwy ar gyfer cyfraniad ar-safle yw 10 o anheddau. Mae safleoedd a ddiffinnir fel dyraniadau (heb ganiatâd) yn cael eu nodi mewn perthynas â'r targed polisi a nodir ym Mholisi AHOM1 a bydd safleoedd gyda chaniatâd cynllunio neu'r rhai a adeiladwyd yn cael eu cyfrif mewn perthynas â'r cyfraniadau a nodir yn eu cytundebau S106.

2.52 Ystyrir bod potensial i 1,627 o anheddau fforddiadwy yn y safleoedd a amlygwyd ym Mholisi HOM1.

Cyfraniadau Swm Cyfnewid

2.53 Bydd Cyfraniadau Swm Cyfnewid yn cefnogi'r ddarpariaeth o Dai Fforddiadwy, ond nid yw ei wariant i gefnogi adeiladu tai newydd yn unig. (gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig). Felly mae'n anodd nodi ffigur o dan y gydran hon.

Hap-safleoedd

2.54 Mae lwfans yn cael ei wneud ar gyfer tai fforddiadwy y gellid eu datblygu ar safleoedd disgwylidig. Mae hyn yn seiliedig ar delerau unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd ar hap-safleoedd mawr, a defnyddir targedau canran y CDLI mabwysiedig ar gyfer y safleoedd posibl hynny a allai gael eu datblygu cyn mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 135 o anheddau fforddiadwy

Anheddau Angen Lleol

2.55 Mae'r AMBau ar gyfer y cyfnod 2015-2022 wedi nodi bod 65 o dai angen lleol, gweithwyr allweddol, neu Ddatblygiadau Un Blaned wedi'u cwblhau. Os yw'r ffigur hwn ar gyfartaledd dros gyfnod y cynllun, gellid datblygu tua 139 o anheddau angen lleol a gweithwyr allweddol.

Cyfanswm y Ffigur

2.56 Wrth ystyried dadansoddiad y cyflenwad posibl ar gyfer tai fforddiadwy fel y crybwyllwyd uchod, gellir cyfrifo ffigur o 1,901 o anheddau.

2.57 Er budd Polisi SP5 o fewn 2^{il} Fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig, ac er hwylustod, ystyrir bod targed o 1,900 o gartrefi fforddiadwy yn briodol

Atodiad 1 - Safleoedd bach wedi'u gwblhau fesul haen

Haen 1 - Prif Canolfannau

Clwstwr	Anheddiad	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022
3	Rhydaman	3	6	2	6	14	11
3	Blaenau / Caerbryn	0	0	1	5	1	0
3	Capel Hendre	0	0	0	0	0	2
1	Caerfyrddin	11	2	3	0	15	2
3	Cefneithin	0	0	4	4	1	1
3	Cross Hands	1	2	0	2	2	1
3	Drefach	0	0	1	0	5	1
3	Gorslas	5	1	0	1	4	1
3	Llandybie	0	2	2	0	9	7
2	Llanelli	10	8	17	15	13	12
3	Penygroes / Gorsddu	0	0	4	1	12	4
3	Saron (Ammanford)	2	0	0	0	0	0
3	Y Twmbl	0	8	0	4	1	1
3	Ty-croes	1	0	1	2	3	3
	Cyfanswm	33	29	35	40	80	46

Haen 2 - Canolfan Wasanaeth

Clwstwr	Anheddiad	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022
3	Brynamman	1	1	1	1	0	3
2	Porth Tywyn	0	1	4	0	9	2
2	Carwe	0	1	1	0	0	1
1	Glan y Fferi	0	0	0	0	3	2
3	Glanamman/Garnant	1	1	3	2	7	3
2	Yr Hendy/Fforest	0	1	0	1	1	5
2	Cydweli	0	0	2	1	2	3
6	Talacharn	0	1	1	0	4	0
5	Llandeilo/Rhosmaen/Ffairfach	1	0	3	0	6	0
5	Llanymddyfri	2	0	2	1	1	0
5	Llangadog	0	0	0	1	1	2
2	Llangennech	0	2	1	0	4	1
4	Llanybydder	0	1	2	1	0	0
4	Castell Newydd Emlyn	0	1	0	1	1	1
2	Pembre	0	1	0	1	0	0
4	Pencader	1	0	0	1	2	0
1	Ponthenri	1	2	0	0	0	0
1	Pontiets & Meinciau	8	1	2	5	8	0
3	Pontyberem/Bancffosfelen	5	0	1	4	2	3
6	San Cler /Pwll Trap	1	2	2	5	6	5
2	Trimsaran	0	0	0	3	0	1
6	Hendy Gwyn ar Daf	0	1	1	1	2	1
	Cyfanswm	21	17	26	29	59	33

Haen 3 - Pentrefi Cynaliadwy

Clwstwr 3	Anheddiad	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022
5	Abergorlech	0	0	0	0	0	0
1	Alltwalis	0	0	0	0	0	0
6	Bancyfelin	0	0	0	0	0	0
1	Brechfa	0	0	0	0	0	1
1	Bronwydd & Cwmdwyfran	0	0	0	0	1	0
5	Caio	0	0	1	0	1	1
1	Capel Dewi	0	2	0	0	1	0
4	Capel Iwan	0	1	0	3	4	1
3	Carmel	0	0	0	0	0	1
4	Cenarth	0	0	0	0	0	0
4	Cwmann	0	2	0	0	0	3
1	Cwmduad	0	0	0	0	0	0
1	Cwmffrwd	0	0	2	0	0	0
3	Cwmgwili	0	0	1	0	0	0
5	Cwmifor	0	1	0	1	0	0
5	Cwrt Henri	0	0	0	0	1	0
1	Cynwyl Elfed	0	0	0	0	0	0
4	Drefach/Felindre	0	1	0	1	0	0
6	Efailwen	0	1	1	1	0	0
5	Ffarmers	0	2	0	0	2	0
2	Pum Heol	0	2	1	3	2	2
3	Foelgastell	1	1	0	1	0	0
6	Glandy Cross	0	0	0	0	0	0
2	Horeb	0	0	0	0	0	1
1	Idole/Pentrepoeth	0	0	1	1	1	0
1	Llanarthne	0	1	1	1	0	0
6	Llanboidy	0	0	1	1	3	1
1	Llanddarog	1	0	0	1	1	0
6	Llanddowror	0	0	0	3	0	0
1	Llandyfaelog	1	1	0	0	1	0
3	Llanedi	0	0	0	0	0	0
4	Llanfihangel-ar-arth	0	0	0	0	0	0
5	Llanfynydd	0	1	1	2	2	0
1	Llangain	0	0	0	1	0	1
4	Llangeler	0	0	0	0	0	1
1	Llangyndeyrn	0	0	0	0	1	0
6	Llangynin	1	0	0	1	3	0
6	Llangynog	0	0	0	0	0	3
4	Llanllwni	2	0	0	0	0	1
6	Llanmiloe	0	0	0	0	0	0
3	Llannon	0	1	1	0	1	0
1	Llanpumsaint	1	0	1	0	0	0
2	Llansaint / Broadway	0	1	0	1	0	2
5	Llansawel	2	1	3	0	2	1
1	Llansteffan	0	0	3	1	2	0
5	Llanwrda	0	0	0	1	1	0
1	Llanybri	0	0	0	0	1	1
6	Meidrim	1	2	0	0	1	0

2	Mynyddygarreg	1	2	0	1	0	0
1	Nantgaredig	0	0	1	2	3	3
4	New Inn	0	0	0	0	0	1
6	Pentywyn	0	0	1	1	0	0
1	Peniel	0	1	0	1	0	0
4	Pentrecwrt	0	1	1	0	0	0
1	Pontargothi	1	2	1	1	1	0
4	Pontweli	1	0	2	0	0	0
1	Porthyrhyd	0	1	0	0	0	2
4	Rhos	2	1	0	1	0	0
1	Rhydargaeau	1	0	0	1	2	0
5	Salem	1	1	0	2	3	0
4	Saron	0	3	0	1	1	1
5	Talylychau	0	0	3	0	1	0
4	Trelech	0	0	0	0	0	0
4	Waungilwen	0	0	2	3	1	0
3	Ystradowen	4	1	1	0	2	0
Cyfanswm		21	34	30	38	46	28

Haen 4 - Pentrefi Gwledig

Clwstwr	Anheddiad	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022
1	Abernant	1	0	0	0	1	0
5	Ashfield Row	0	0	0	0	0	0
4	Bancyffordd	0	1	0	0	0	1
5	Bethlehem	0	0	0	0	0	0
6	Blaenwaun	0	0	0	0	3	1
1	Blaenycapel	0	0	0	0	0	0
1	Blaenycod	0	0	0	0	0	2
5	Broad Oak	0	0	0	0	0	0
6	Broadway	0	0	0	0	0	0
4	Bryn Iwan	0	0	0	0	0	0
5	Capel Isaac	1	0	1	0	0	1
3	Capel Seion	0	0	0	0	1	0
3	Cefnbrynbrain	0	0	0	0	0	0
5	Cilycwm	1	2	0	0	1	0
1	Croesyceiliog	1	0	0	0	2	2
6	Cross Inn	1	1	0	1	0	0
1	Crwbin	0	0	0	0	0	0
5	Crygybar	0	0	0	0	1	0
6	Cwmbach	0	0	0	0	0	0
5	Cwm-du	0	0	0	0	0	0
6	Cwmfelin Boeth	0	0	0	0	0	0
6	Cwmfelin Mynach	0	0	0	0	0	0
4	Cwmhiraeth	0	0	0	0	0	0
4	Cwmpengraig	0	0	0	0	0	0
5	Cynghordy	0	0	1	0	0	0
2	Cynheodre	0	0	0	0	0	0
3	Derwydd	0	0	0	0	0	0
4	Dolgran	0	1	0	0	0	0
3	Drefach (Llandyfan)	0	0	0	0	0	0

4 Drefelin	0	0	0	0	0	0
5 Dryslwyn	3	1	0	0	1	0
5 Felindre (Dryslwyn)	0	0	0	0	0	0
5 Felindre (Llangadog)	0	0	0	0	1	1
1 Felingwm Isaf	0	0	0	0	0	0
1 Felingwm Uchaf	0	1	1	0	0	0
5 Ffaldybrenin	1	0	1	0	0	0
2 Four Roads	0	0	0	0	0	0
5 Golden Grove	0	0	0	0	1	0
4 Gwyddgrug	1	0	0	0	0	0
3 Heol Ddu	1	0	1	0	1	0
1 Hermon	0	0	0	0	0	0
1 Llanegwad	0	0	0	0	0	0
6 Llanfallteg	0	0	2	0	0	0
5 Llangathen	1	0	1	1	0	0
6 Llanglydwen	0	0	0	0	0	1
6 Llansadurnen	1	0	0	0	0	0
5 Llansadwrn	0	0	0	2	1	0
3 Maesybont	0	0	1	0	0	0
5 Manordeilo	0	0	1	0	0	0
3 Milo	0	0	0	0	0	0
3 Mynyddcerrig	0	0	1	0	0	0
1 Nantycaws	0	0	0	0	0	0
1 Nebo	0	0	0	0	0	0
3 Pantllyn	0	0	0	0	0	0
4 Penboyr	0	0	0	0	0	0
4 Pencarreg	0	0	1	0	0	0
4 Pentrecagel	0	0	0	2	1	0
3 Pentregwenlais	0	0	0	0	0	3
5 Penybanc	0	0	0	0	0	0
1 Penybont	0	0	0	1	0	0
2 Penymynydd	0	0	1	0	0	0
1 Pontantwn	0	1	0	0	0	1
1 Pontarsais	0	0	1	0	0	1
1 Pontnewydd	0	0	0	0	0	0
5 Porthyrhyd (Llanodover)	0	0	0	0	0	1
5 Pumsaint	0	1	0	1	1	0
6 Red Roses	0	0	0	0	0	0
5 Rhandirmwyn	1	0	0	1	1	0
3 Rhosamman	0	0	0	0	0	0
5 Rhydcymerau	0	0	0	0	1	0
3 Stag & Pheasant	0	0	0	0	1	0
1 Talog	0	0	0	0	0	0
3 Temple Bar	0	0	0	0	0	0
5 Trapp	1	0	0	0	1	0
5 Waunystrad Meurig	0	0	0	0	0	0
1 Whitemill	0	1	0	0	0	0
Cyfanswm	15	10	14	9	20	15

Anheddiad heb ei ddiffinio

Clwstwr	Anheddiad	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022
1	Bwlchnewydd	0	0	0	1	0	0
6	Hebron	0	1	0	0	1	0
6	Henllan Amgoed	1	0	0	0	0	1
6	Login	1	1	0	0	0	0
4	Maesycrugiau	0	0	0	0	1	0
1	Newchurch	0	0	0	0	0	1
5	Siloh	0	0	0	0	0	1
	Cyfanswm	2	2	0	1	2	3

Crynodeb o safleoedd bach wedi'u orffen

Haen	2016	2017	2018	2019	2020-21	2022	Total
1	33	29	35	40	80	46	263
2	21	17	26	29	59	33	185
3	21	34	30	38	46	28	197
4	15	10	14	9	20	15	83
Dim Haen	2	2	0	1	2	3	10
Cyfanswm	92	92	105	117	207	125	738

Atodiad 2 - Aneddiadau yn Haen 4 ar nifer y tai

	Nifer o unedau bras yn yr anheddiad	10% o niferoedd yr aneddiadau	Cap ar anheddau arfaethedig newydd yn yr anheddiad
Clwstwr 1			
Hermon	30	3	3
Aber-nant	15	1.5	2
Blaen-ycoed	15	1.5	2
Bancycapel	15	1.5	2
Nant-y-caws	50	5	5
		5.5	6
Croesyceiliog	55		
Crwbin	60	6	6
Felin-gwm Uchaf	25	2.5	3
Felin-gwm Isaf	14	1.4	2
Llanegwad	35	3.5	4
Pontantwn	18	1.8	2
Nebo	19	1.9	2
Talog	29	2.9	3
Pen-y-bont	20	2	2
Y Felin Wen	29	2.9	3
Pont-Newydd	23	2.3	3
Pont-ar-sais	14	1.4	3
Cyfanswm	466		53

	Nifer o unedau bras yn yr anheddiad	10% o niferoedd yr aneddiadau	Cap ar anheddau arfaethedig newydd yn yr anheddiad
Clwstwr 2			
Penymynydd	125	12.5	13
Pedair-hewl	65	4	4
Cynheidre	65	6.5	7
Cyfanswm	255		24

	Nifer o unedau bras yn yr anheddiad	10% o niferoedd yr aneddiadau	Cap ar anheddau arfaethedig newydd yn yr anheddiad
Clwstwr 3			
Capel Seion	29	2.9	3
Derwydd	45	4.5	5
Heol Ddu	43	4.3	4
Maes-y-bont	15	1.5	2
Milo	50	5	5
Pant-llyn	20	2	2
Pentregwenlais	55	5.5	6
Temple Bar	55	5.5	6
Cefnbrynbrain	65	6.5	7
Rhosamman	9	0.9	1
Drefach (Llandyfan)	8	0.8	1
Stag and Pheasant	55	5.5	6
Mynyddcerrig	80	8	8
Cyfanswm	529		56

	Nifer o unedau bras yn yr anheddiad	10% o niferoedd yr aneddiadau	Cap ar anheddau arfaethedig newydd yn yr anheddiad
Clwstr 4			
Pen-boyr	19	1.9	2
Drefelin	40	4	4
Cwm-pen-graig	40	4	4
Cwmhiraeth	20	2	2
Pentrecagal	50	5	5
Gwyddgrug	39	3.9	4
Dolgran	15	1.5	2
Bancyffordd	29	2.9	3
Bryn Iwan	10	1	1
Pencarreg	40	4	4
Cyfanswm	302		31

	Nifer o unedau bras yn yr anheddiad	10% o niferoedd yr aneddiadau	Cap ar anheddau arfaethedig newydd yn yr anheddiad
Clwstr 6			
Cwmfelin Mynach	30	3	3
Cwmbach	15	1.5	2
Blaenwaun	25	2.5	3
Llanglydwen	25	2.5	3
Cwmfelin-boeth	15	1.5	2
Cross Inn	30	3	3
Llansadurnen	25	2.5	3
Broadway	55	5.5	6
Rhos-goch	40	4	4
Llanfallteg	70	7	7
Cyfanswm	330		36

	Nifer o unedau bras yn yr anheddiad	10% o niferoedd yr aneddiadau	Cap ar anheddau arfaethedig newydd yn yr anheddiad
Clwstr 5			
Ffaldybrenin	20	2	2
Crug-y-bar	20	2	2
Cwm-du	15	1.5	2
Ashfield Row	35	3.5	4
Felindre (Llangadog)	50	5	5
Cyngordy	20	2	2
Gelli Aur	35	3.5	4
Derwen Fawr	34	3.4	4
Trapp	9	0.9	1
Maenordeilo	45	4.5	5
Pen-y-banc	44	4.4	5
Felindre, Dryslwyn	20	2	2
Dryslwyn	10	1	1
		3	3
Rhydcymerau	30		
Waunystad Meurig	30	3	3
Bethlehem	10	1	1
Capel Isaac	10	1	1
Llangathen	25	2.5	3
Llansadwrn	40	4	4
Rhandirmwyn	50	5	5
Porthyrhyd	10	1	1
Pumsaint	15	1.5	2
Siloh	8	0.8	1
Cilycwm	60	0.6	1
Cyfanswm	645		64

Clwstr	Dosbarthiad o dai newydd yn Haen 4
Clwstr 1	53
Clwstr 2	24
Clwstr 3	56
Clwstr 4	31
Clwstr 5	64
Clwstr 6	36
Cyfanswm	264

Atodiad 3 - Safleoedd heb eu cymryd ymlaen yn yr 2il CdLI Adneuo

Clwstwr	Anheddiad	Enw'r safle	Statws Presennol	Cyfeirnod Safle	A oes gan y safle ganiatâd cynllunio	Rheswm dros wahardd o'r Cynllun	Potensial i ddatblygu'r safle	Capasiti'r safle	Hap safleoedd disgwyliedig	Hap safleoedd na rhagwelyd
Clwstwr 1, Haen 1	Caerfyrddin	Penymorfa	Safle Mabwysiedig y CDLI	GA1/h1	Nac oes	Pryderon ynghylch cyflawni	Annhebygol iawn. Bydd safle'n disgyn o'r rhestr banciau tir wrth fabwysiadu'r CDLI Diwygiedig	180	0	180
	Caerfyrddin	Hen Adeilad Cyfnewidfa BT, Heol Spilman	Safle Mabwysiedig y CDLI	GA1/h6	Oes	Pryderon ynghylch cyflawni	Annhebygol iawn. Er bod gwaith wedi'i wneud ar rannau o'r adeilad, nid yw'n ymddangos eu bod yn symud ymlaen tuag at elfen breswyl.	14	0	14
